


Briff Ymchwil

# Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) - Hysbysiad Hwylus

Awdur: **Joseph Champion**
Dyddiad: **Mai 2016**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Joeseph Champion**
Dyddiad: **Mai 2016**
Rhif Papur: **16-025**

**Agraffwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.**

**Hyrwyddwyd gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA.**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6328**
**: Joseph.Champion@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) - Hysbysiad Hwylus

Mae'r rheoliad Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yn gosod dyletswydd ar Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd i wella eu seilwaith trafnidiaeth er mwyn, yn y pen draw, i'r holl wladwriaethau rannu'r un safon o fewn yr UE. Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r rheoliad a'i sail resymegol. Mae hefyd yn tynnu sylw at y seilwaith yng Nghymru a fydd angen ei uwchraddio erbyn 2030, er mwyn iddo ddod yn unol â'r rheoliad newydd. Mae'n egluro pa rannau o rwydwaith y seilwaith fydd yn cael eu heffeithio, a sut y gellir cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol.

Er mai cyfrifoldeb i'r Aelod-wladwriaethau yw cyflwyno gwelliannau TEN-T, mae'r UE wedi pasio rheoliad Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF). Ffrwd ariannu CEF sy'n darparu'r prif gyfraniad ariannol gan yr UE ar gyfer rhoi rhwydwaith craidd TEN-T ar waith, sy'n cael ei egluro yn yr hysbysiad hwn. Mae ffynonellau ariannol posibl eraill ar gyfer prosiectau TEN-T hefyd yn cael sylw yma.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1. Cefndir TEN-T

Nod y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) yw datblygu rhwydwaith trafnidiaeth aml-foddol integredig i ganiatáu i bobl a nwyddau symud yn gyflym ac yn rhwydd ar draws yr UE. Bwriad hyn yw cefnogi datblygiad y farchnad fewnol ac atgyfnerthu cydlyniad economaidd a chymdeithasol.

Y bwriad hefyd yw paratoi system drafnidiaeth yr UE ar gyfer y cynnydd a ragwelir mewn traffig cludo nwyddau a theithwyr, ar draws pob math o drafnidiaeth, dros y degawdau nesaf. Erbyn 2030, disgwylir i ddatblygiad y rhwydwaith TEN-T greu cynnydd GDP o 1.8 y cant a 10 miliwn o swyddi ychwanegol ar draws yr UE.

Mae integreiddio systemau trafnidiaeth Aelod-wladwriaethau'r UE wedi bod yn nod hirdymor yr UE, gyda'r ymdrechion cychwynnol i gydlynu yn dyddio yn ôl i Gytuniad Rhufain. **Ni chafodd ymdrechion mwy cydunol eu gwneud** i annog Aelod-wladwriaethau i weithio tuag at system fwy integredig hyd nes y 1990au.

Cyn Rheoliad TEN-T 2013, roedd fersiynau blaenorol o'r polisi yn bodoli, yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd rhwng 1996 a 2010. Nid oedd y canllawiau hyn yn rhwymol yn gyfreithiol, ond roeddent yn pennu cymhwysedd Aelod-wladwriaethau i gael cyllid ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yr UE yn ystod rowndiau gwariant 1995-2013.

Roedd rownd cyllido ddiwethaf TEN-T rhwng 2007 a 2013 ac roedd yn seiliedig ar gynigion prosiectau gan yr Aelod-wladwriaethau. Roedd cefnogaeth ariannol yr UE yn €8 biliwn yn ystod y cyfnod hwn. Dyrannwyd cyllid i amrywiaeth o brosiectau, ar draws rheilffyrdd, ffyrdd, awyr a blaenoriaethu **trafford y môr**, ar sail aml-flynyddol a blynyddol. Mae rhestr lawn o'r **prosiectau a ariannwyd ar gael ar-lein.**

Yn 2009, cyhoeddodd yr UE bapur gwyrdd: "**Towards a better integrated trans-European transport network at the service of the common transport policy".** Arweiniodd hynny at ail ddogfen ymgynghori, **"Consultation on the Future Trans-European Network",** a arweiniodd at y Rheoliad TEN-T cyfredol **Regulation ((EU) No 1315/2013).** Roedd y Rheoliad hwn yn gwneud blaenoriaethau a safonau TEN-T yn rhwymol yn gyfreithiol ar yr Aelod-wladwriaethau.

# 2. Cyflwyniad i'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd

Mae canllawiau TEN-T yn amlinellu'r rhwydwaith cludiant a fydd yn cael ei ddatblygu, yn diffinio gofynion technegol ac yn sefydlu meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Dyma flaenoriaethau cyffredinol TEN-T:

- llenwi cysylltiadau coll, yn benodol mewn lleoliadau trawsffiniol;
- lleihau'r gwahaniaeth yn ansawdd y seilwaith trafnidiaeth rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE. Y gobaith yw y bydd hyn yn sicrhau **rhyngweithredu** digonol rhwng rhwydweithiau rheilffyrdd Aelod-wladwriaethau'r UE;
- gwella'r cysylltiadau rhwng y gwahanol ddulliau o deithio; a
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trafnidiaeth.

Mae'r rheoliad TEN-T wedi cael ei strwythuro o amgylch dwy haen, y rhwydwaith craidd a'r rhwydweithiau cynhwysfawr. Mae'r rheoliad yn disgrifio'r ddwy haen hyn fel cynllunio seilwaith ar y lefel uchaf o fewn yr Undeb, sy'n cynnwys y seilwaith trafnidiaeth pwysicaf. Mae'r ddwy haen yn ymgorffori'r holl ddulliau trafnidiaeth (nwyddau, rheilffyrdd i deithwyr a llwybrau ffyrdd, dyfrffyrdd mewnol, traffyrdd y môr, porthladdoedd môr a meysydd awyr). Mae'r haenau hefyd yn cynnwys seilwaith trafnidiaeth (fel digon o arosfannau gorffwys a gorsafoedd tanwydd), **ceisiadau telematig** a mesurau eraill cysylltiedig.

Y rhwydwaith cynhwysfawr yw'r haen sylfaenol mwy o faint, a fwriadwyd i sicrhau hygyrchedd digonol a chysylltedd i bob rhanbarth yn yr UE. Mae'r rhwydwaith craidd yn cynnwys cysylltiadau a chanolfannau pwysicaf y rhwydwaith yn strategol, sydd wedi'u trefnu'n bennaf i naw coridor gweinyddol (gweler isod). Mae'n rhaid cwblhau'r gwelliannau i'r rhwydwaith craidd erbyn 2030, ond mae gan yr Aelod-wladwriaethau tan 2050 i wella eu rhwydweithiau cynhwysfawr.

Mae yna hefyd ddwy flaenoriaeth lorweddol, sef y **System Rheoli Traffig Rheilffordd Ewropeaidd (ERTMS)** (â'r nod o sefydlu un system signalau rheilffordd ledled yr UE) a **Thraffyrdd y Môr (MOS)** (â'r nod o gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth môr yn y gadwyn logisteg).

Amcangyfrifir y bydd angen gwario €700 biliwn ar brosiectau trafnidiaeth TEN-T ar draws yr UE rhwng 2014-2020. Bydd y cyfrifoldeb dros gyflwyno'r rhwydwaith, a'r rhan fwyaf o'r costau buddsoddi, yn disgyn yn bennaf ar yr Aelod-wladwriaethau, er bod rhai rhaglenni ariannu'r UE wedi'u cynllunio i gefnogi'r Aelod-wladwriaethau i godi'r cyfalaf sydd ei angen.

# 3. Cyflawni TEN-T

Er mwyn hwyluso cyllid a buddsoddiad wedi'u targedu ac i annog cydweithio a chynllunio trawsffiniol, mae'r rhwydweithiau craidd wedi cael eu trefnu yn **naw coridor rhwydwaith craidd**. Y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith gwella a datblygu a nodwyd fel rhan o'r coridorau hyn yw 2030. Mae'r DU yn rhan o **Goridor Môr y Gogledd - Môr y Canoldir**. Er bod yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr wedi cael eu cynnwys, nid yw'n ymestyn i mewn i Gymru.

Mae'r coridorau wedi cael eu cynllunio i gynnwys y llwybrau pellter hir pwysicaf ar draws yr UE. Mae gan y coridorau ffocws cryf ar y gallu i ryngweithredu ac ar y rhyng-gysylltiadau rhwng gwahanol fathau o gludiant, er mwyn gwella cysylltiadau trawsffiniol.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penodi **cydlynydd Ewropeaidd** ar gyfer pob coridor a blaenoriaeth lorweddol, o wlad nad yw'n cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan y coridor o dan sylw. Mae'r cydlynwyr yn arwain ar y gweithgareddau sy'n ymwneud â'u coridor ac yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed i Senedd Ewrop, y Cyngor, y Comisiwn a'r Aelod-wladwriaethau o dan sylw. Y cydlynydd ar gyfer coridor Môr y Gogledd - Môr y Canoldir yw **Péter Balázs.**

Nid yw Cymru wedi cael ei chynnwys yn y coridor Môr y Gogledd - Môr y Canoldir, er iddi gael ei chynnwys yng nghoridor arfaethedig Dulyn-Llundain-Paris-Brwsel, na chafodd ei gynnwys yn nhestun terfynol y Rheoliad. Mewn un o gyfarfodydd **Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad ym mis Tachwedd 2013**, dywedodd pennaeth uned TEN-T y Comisiwn Ewropeaidd y gallai'r coridor hwnnw fod wedi cael ei ddileu fel ymateb i bwysau gan Lywodraeth y DU i leihau maint y coridorau TEN-T yn y DU. Yn yr un cyfarfod, pwysleisiodd y swyddog hefyd na fyddai hepgor Cymru o goridor y rhwydwaith yn golygu na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu cael mynediad at gyllid CEF ar gyfer prosiectau cysylltiedig â TEN-T yng Nghymru.

Ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, mae **astudiaethau coridor unigol** wedi cael eu cynhyrchu. Fe wnaeth yr astudiaethau hyn ddadansoddi'r nodweddion a'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddod â phob Gwladwriaeth i'r safon ofynnol. Yn seiliedig ar yr astudiaethau hyn, ac mewn cydweithrediad â fforymau coridor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Aelod-wladwriaethau, rheolwyr seilwaith, awdurdodau a rhanbarthau, fe wnaeth pob cydlynydd baratoi **cynllun gwaith coridor.**

Mae pob cynllun gwaith yn mynd i'r afael â heriau penodol, yn gosod amcanion datblygu, yn cynnwys dadansoddiad o'r farchnad ynghylch rhagweld tueddiadau trafnidiaeth, ac yn amlinellu rhestr gychwynnol o brosiectau. Mae cynlluniau gwaith hefyd wedi cael eu paratoi ar gyfer y ddwy flaenoriaeth lorweddol. Cafodd y cynlluniau hyn eu cymeradwyo gan yr Aelod-wladwriaethau o dan sylw ym mis Mehefin 2015, ac maent yn sail ar gyfer gweithredu hyd at 2030. Caiff y cynlluniau eu hadolygu ar sail barhaus, mewn partneriaeth â fforymau coridor, i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau.

# 4. Prosiectau cyfredol a gynlluniwyd o dan y rhaglen TEN-T

**Fe wnaeth astudiaeth 2014**, a gynhyrchwyd ar gyfer coridor Môr y Gogledd - Môr y Canoldir, nodi'r prosiectau canlynol i'w ariannu cyn 2020, fel rhan o'r rhaglen Coridor TEN-T yn y DU:

- €1580 miliwn: Canolfan Northern Rail;
- €850 miliwn: Uwchraddio rheilffordd Felixstowe-Nuneaton;
- €631 miliwn: Gwelliannau i draffyrdd yr M8, yr M73, a'r M74 yng Nghanolbarth yr Alban;
- €346 miliwn: Trydaneiddio rheilffordd Caeredin-Glasgow;
- €276 miliwn: Uwchraddio'r cyflenwad pŵer ar Brif Linell Arfordir y Gorllewin, Gogledd Wembley i Great Strickland;
- €265 miliwn: Cynyddu capasiti ar reilffordd Stafford; a
- €265 miliwn: Newry, ffordd liniaru ddeheuol i'r A1.

Ni chafodd unrhyw brosiectau yng Nghymru eu nodi yn yr astudiaeth. Fodd bynnag, mae Cymru'n cael ei nodi fel rhanbarth ymylol yn yr astudiaeth, ochr yn ochr â rhannau o'r Alban a Gogledd Iwerddon. Nodwyd y dylid ystyried pwysigrwydd cysylltu'r rhanbarthau ymylol, drwy'r rhwydwaith cynhwysfawr a'r rhwydwaith craidd, i'r canol wrth ddatblygu prosiectau sy'n gysylltiedig â'r coridor Môr y Gogledd - Môr y Canoldir.

# 5. Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF) ac ariannu TEN-T

Cafodd **Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF)** ei sefydlu gan **Reoliad 1316/2013 (PDF 1.5MB).** Mae rheoliad CEF yn ceisio sbarduno'r buddsoddiad sydd ei angen i gyrraedd **DEG nod y prosiect**, sy'n cynnwys datblygu ynni a thelathrebu digidol, yn ogystal â thrafnidiaeth a seilwaith. Yn wreiddiol, roedd cyllideb o €33.2 biliwn. Ond, yn ddiweddarach, cafodd ei ostwng i €30.4 biliwn. Roedd y gostyngiad o ganlyniad i arian yn cael ei symud o'r CEF i'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol (EFSI) (gweler isod).

Cafodd €24.05 biliwn o'r CEF ei neilltuo ar gyfer prosiectau trafnidiaeth, gyda'r gweddill yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar nodau ynni a thelathrebu. O'r €24.05 biliwn sydd ar

gael, cafodd €12.7 biliwn ei neilltuo i unrhyw Aelod-wladwriaeth wneud cynnig amdano drwy 'alwad cyffredinol' am gyllid. Cafodd €11.3 biliwn pellach ei gadw ar gyfer ceisiadau gan Aelod-wladwriaethau sy'n derbyn **cyllid cydlyniant** (nid yw'n cynnwys Cymru na unrhyw ran arall o'r DU). Mae'r holl arian i gael ei wario yn rownd gwariant 2014-2020.

Yn bennaf, mae dwy ffurf i gymorth ariannol gan CEF:

- grantiau nad ydynt yn ad-daladwy o gyllideb yr UE; a
- chyfraniadau tuag at offerynnau ariannol arloesol, a ddatblygwyd gan sefydliadau ariannol fel Banc Buddsoddi Ewrop. Yr offerynnau mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw y **Gwarant Benthyciad ar gyfer TEN-T** a'r **Fenter Bond Prosiect.**

Hyd yn hyn, mae €19.53 biliwn wedi'i ddyrannu o gyllideb trafnidiaeth y CEF (€11.93 biliwn yn 2014 a €7.6 biliwn yn 2015). **Derbyniodd y DU €107,948,633** o gyllid o dan yr alwad yn 2014, gan gynnwys hyd at €4,057,178 ar gyfer astudio **ymarferoldeb trydaneiddio rheilffordd Abertawe - Caerdydd.** Mae rhestr o'r prosiectau trafnidiaeth yn y DU sydd wedi **derbyn cyllid gan CEF ar gael ar-lein.**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i **alwad 2015 am gyllid ar gyfer prosiectau trafnidiaeth oedd 16 Chwefror 2016.** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau penodol ynghylch pryd y bydd y rownd nesaf o alwadau yn cael eu gwneud i ddyrannu gweddill y gyllideb. Disgwylir na fydd galwadau cyffredinol ar gyfer cyllid tan o leiaf 2018. Fe allai fod galwad am gyllid i **wladwriaethau yn y gronfa cydlyniant** cyn hynny, ond ni fydd Cymru yn gymwys i wneud cais.

# 6. Dyfodol TEN-T yng Nghymru

Mae gan Gymru sawl llwybr trafnidiaeth sydd wedi cael eu cynnwys yn y rhwydweithiau TEN-T craidd a chynhwysfawr. Ond, hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau unrhyw gyllid CEF. Cafodd ceisiadau aflwyddiannus eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr alwad ariannu yn 2014. Ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd at Gadeirydd Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad ym mis Chwefror 2016 ynghylch y posibilrwydd o lunio ceisiadau prosiect ar y cyd gydag Iwerddon, gan ddweud:

> *The consensus from this engagement with stakeholders, including infrastructure owners, is that no suitably mature, committed projects are likely to emerge to bid for under this call. All involved were very positive about continuing the dialogue…We will continue to build on these relationships and discussions with a view to working on joint projects that could be suitable for bids under the next TEN-T funding call.*

Os nad yw Llywodraeth Cymru yn ennill unrhyw arian CEF o dan yr alwad nesaf, nac yn ystod rowndiau cyllid dilynol, bydd yn rhaid dod o hyd i ddulliau eraill i ariannu'r gwelliannau seilwaith angenrheidiol sy'n rhan o'i chymhwysedd (sef ffyrdd, yn bennaf).  Fe allai hyn ddod o ffynonellau eraill o arian yr UE, buddsoddiad preifat neu fuddsoddiad Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU fydd unrhyw fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith sydd heb ei ddatganoli, fel rheilffyrdd.

Mae'r llwybrau ar rwydweithiau TEN-T yng Nghymru yn cynnwys prif linellau rheilffyrdd y gogledd a'r de, porthladdoedd Aberdaugleddau a Chaergybi, Maes Awyr Caerdydd a rhai o brif gefnffyrdd Cymru. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi mapiau yn dangos y seilwaith sydd yn y rhwydwaith.

Cliciwch yma **i weld y map sy'n dangos y dyfrffyrdd a phorthladdoedd mewndirol, y rheilffyrdd (cludo nwyddau), y porthladdoedd a'r terfynfeydd rheilffyrdd-ffyrdd craidd a chynhwysfawr** yn

y DU (PDF 351KB). Cliciwch yma i **weld y map sy'n dangos y rheilffyrdd a'r meysydd awyr (cludo teithwyr), y ffyrdd, y porthladdoedd a'r terfynfeydd rheilffyrdd-ffyrdd craidd a chynhwysfawr** yn y DU (PDF 377KB).

Nododd Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad y byddai Cymru'n elwa o ddatblygu prosiectau o dan y flaenoriaeth Traffyrdd y Môr, ar y cyd ag Iwerddon, yn **eu hadroddiad ar botensial yr economi forwrol yng Nghymru** yn 2016. Gallai'r prosiectau hyn hefyd fod yn gymwys i gael cymorth drwy **Raglen Cydweithio Cymru-Iwerddon.**

# 7. Ffynonellau posibl eraill o gyllid yr UE

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw arian gan y CEF hyd yma, fe all wneud cais am ffynonellau eraill o gyllid yr UE. Un o'r ffynonellau hynny yw'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol (EFSI) a lansiwyd yn ddiweddar, sy'n rhan o'r **'Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop'** newydd, a lansiwyd gan Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd yn hydref 2014. Rheolir yr EFSI gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB) a'r nod yw ysgogi o leiaf €315 biliwn i gefnogi datblygiadau seilwaith allweddol ar draws yr UE erbyn 2018, gan ddefnyddio buddsoddiad €21 biliwn o gyllid yr UE.

**Mae sawl prosiect yng Nghymru eisoes wedi cael eu nodi** fel rhai a allai fod yn gymwys i gael cymorth o dan y Cynllun Buddsoddi, gan gynnwys gwelliannau i'r A465, sy'n rhan o'r rhwydwaith cynhwysfawr, a **Metro Rhanbarth Prifddinas Caerdydd**, y rhaglen trafnidiaeth integredig yn ne-ddwyrain Cymru nad yw'n rhan o'r rhwydwaith TEN-T. Er bod y prosiectau hyn wedi cael eu nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n gymwys i dderbyn arian, gall gwladwriaethau hefyd geisio cymorth gan ffynonellau cyllid traddodiadol yr EIB ar gyfer unrhyw brosiect sy'n rhoi hwb i'r economi a chefnogi blaenoriaethau polisi'r UE, gan gynnwys TEN-T.

Mae ffynonellau cyllid Ewropeaidd posibl eraill yn cynnwys **Cronfeydd Strwythurol yr UE,** sy'n buddsoddi mewn prosiectau sy'n cefnogi cydlyniad economaidd a chymdeithasol. **Yn fwy penodol, maent yn ariannu prosiectau** sy'n cefnogi ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau bach a chanolig eu maint, ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a **chysylltedd a datblygu trefol**.

Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru ddwy raglen weithredol, un ar gyfer y **dwyrain** ac un ar gyfer **y gorllewin, y gogledd a'r cymoedd,** sy'n amlinellu ei chynlluniau ar gyfer cronfeydd strwythurol yng Nghymru. Mae'r ddwy raglen weithredol hyn yn dangos mai bwriad y flaenoriaeth cysylltedd yw cefnogi a datblygu amcanion TEN-T yng Nghymru.

Mae yna hefyd **raglenni Cydweithrediad Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC)** a allai ddarparu cyllid grant ar gyfer prosiectau. Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Chwefror 2016, dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bod Llywodraeth Cymru yn archwilio: 'funding opportunities, in particular INTERREG, and we will continue to explore the potential for joint tourism projects and renewable energy projects with Ireland'.

Y ddwy raglen ETC sy'n fwyaf perthnasol i amcanion TEN-T yw:

- **Rhaglen Drawsffiniol Iwerddon-Cymru** - Er nad yw'r rhaglen hon yn dynodi cyllid yn benodol ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth, mae yn cefnogi prosiectau drwy gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a thwf swyddi yn y ddwy genedl. Felly, fe allai fod potensial ar gyfer synergedd rhwng prosiectau a ddatblygwyd o dan y rhaglen hon a datblygiadau ar hyd y llwybrau TEN-T yn y gogledd a'r de.

- **Rhaglen Cydweithredu Trawswladol Gogledd-orllewin Ewrop (NWE)** 2014-2020 - Mae gan y rhaglen NWE dri phrif bennawd y gall partïon sydd â diddordeb wneud cais oddi tanynt: Arloesi, Carbon Isel ac Effeithlonrwydd Adnoddau a Deunyddiau. Mae'r pennawd Carbon Isel yn ymwneud â: 'promote sustainable transport and remove bottlenecks in key network infrastructures'.

# 8. Ffynonellau Allweddol

- Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop, **Assessment of Connecting Europe Facility** (Saesneg yn unig) (PDF 5.75MB) (2016)
- Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop, **An overview of the Trans-European Transport Network** (Saesneg yn unig) (PDF 1.97MB) (2015)
- Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop **Connecting Europe Facility** (Saesneg yn unig) (PDF 391KB) (2015)
- Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad, **Potensial yr Economi Forwrol yng Nghymru** (2015)